# DANGOSYDDION PERFFORMIAD AR GYFER ASESIAD DRAFFTIO CYFREITHIOL SQE2

| *Sgiliau* | *Dangosyddion sy'n dangos cymhwysedd* | *Dangosyddion nad ydynt yn dangos cymhwysedd* |
|---|---|---|
| **Defnyddio iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol** | • Mae'r ymgeisydd yn defnyddio iaith ddealladwy a syml i gyfleu ffeithiau a gwybodaeth yn effeithiol<br><br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio geiriau ac ymadroddion sy'n addas o ran ffurfioldeb yn y ddogfen sy'n cael ei drafftio<br><br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio terminoleg gyfreithiol gywir lle bo angen<br><br>• Mae'r ddogfen yn defnyddio cyn lleied o eiriau â phosibl heb gyfaddawdu ansawdd yr ateb | • Mae ateb yr ymgeisydd yn un amleiriog, ailadroddus neu ddryslyd drwyddi draw, ac nid yw'n hawdd ei ddeall<br><br>• Ni ellir canfod ystyr y ddogfen oherwydd prinder geiriau<br><br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio iaith amhriodol e.e. mae'r iaith yn rhy anffurfiol neu ddiofal<br><br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio termau technegol/jargon cyfreithiol diangen drwyddi draw |
| | | |
| **Strwythuro'r ddogfen yn briodol ac yn rhesymegol** | • Mae'r ymgeisydd yn cyflwyno ffeithiau a gwybodaeth mewn ffordd drefnus, e.e. mae ffocws, llif a chyfeiriad pob paragraff yn glir a defnyddir arwyddbyst priodol i arwain y darllenydd drwy'r ddogfen<br><br>• Mae'r ffordd y mae'r ymgeisydd yn trefnu cynnwys y ddogfen yn cyflawni'r diben | • Mae'r ymgeisydd yn cyflwyno'r ffeithiau neu'r wybodaeth mewn ffordd ddi-drefn neu ddryslyd, e.e. does dim rhesymeg i drefn y paragraffau na'r cynnwys<br><br>• Nid yw'r ffordd y mae'r ymgeisydd yn trefnu cynnwys y ddogfen yn cyflawni'r diben |
| | | |
| *Y Gyfraith* | ***Dangosyddion sy'n dangos cymhwysedd*** | ***Dangosyddion nad ydynt yn dangos cymhwysedd*** |
| **Drafftio dogfen sy'n gyfreithiol gywir** | • Mae'r ymgeisydd yn canfod yr egwyddorion cyfreithiol cywir yn unol â manyleb asesu SQE2 ac yn eu defnyddio'n gywir wrth ddrafftio. | • Nid yw'r ymgeisydd yn nodi'r egwyddorion cyfreithiol cywir |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae drafftio'r ymgeisydd yn gyfreithiol effeithiol, e.e. mae'r ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth allweddol neu enwau'r partïon perthnasol | • Nid yw'r ymgeisydd yn defnyddio'r egwyddorion cyfreithiol yn gywir wrth ddrafftio<br>• Nid yw drafftio'r ymgeisydd yn gyfreithiol effeithiol |
| | | |
| **Drafftio dogfen sy'n gyfreithiol gynhwysfawr at sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol ac arfer crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll** | • Mae drafftio'r ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun sefyllfa'r cleient ac o ran y materion ffeithiol a chyfreithiol perthnasol<br>• Lle bo'n berthnasol, mae'r ymgeisydd yn cydnabod materion moesegol ac yn arfer crebwyll effeithiol wrth fynd i'r afael â'r rhain yn unol ag Egwyddorion a rheolau ymddygiad proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) | • Nid yw drafftio'r ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun sefyllfa'r cleient ac o ran y materion ffeithiol a chyfreithiol perthnasol<br>• Nid yw'r ymgeisydd yn cydnabod materion moesegol nac yn arfer crebwyll effeithiol wrth fynd i'r afael â'r rhain yn unol ag Egwyddorion a rheolau ymddygiad proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) |